

Taflen Ffeithiau

Anawsterau Ariannol

A oes modd i ni helpu os ydych yn cael trafferth talu eich Rhent neu eich Morgais?

Oes, ond mae'n bwysig eich bod yn gweithredu'n gyflym. Mae camau y gallwch eu cymryd i osgoi mynd i rhagor o ddyled. Os nad ydych yn gweithredu, efallai bydd eich landlord yn cyflwyno Rhybudd, neu gall eich Rhoddwr Benthyciadau ar gyfer Morgais ddechrau achos cymryd meddiant.

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Cynyddu eich Incwm

- Cyllidebu – Defnyddio Ffurflen Datganiad Ariannol i gyfrifo eich incwm a'ch gwariant. Efallai y bydd meysydd lle y gallwch wneud arbedion drwy leihau eich gwariant ar bethau nad ydynt yn hanfodol.
- Derbyn ail swydd- Er nad yw hyn yn addas i bawb, mae'n fodd da o gynyddu eich enillion ac yn gymorth i barhau â'ch taliadau.
- Cynyddu incwm – Derbyn lletywr (os y caniateir hynny yn amodau eich tenantiaeth)
- Hawlio Budd-daliadau - Gwiriwch eich bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Bydd y Siop Un Stop yn edrych ar eich hawl i dderbyn budd-dal tai a threth y cyngor. Gall staff y Ganolfan Waith leol edrych pa fudd-daliadau eraill y gallech fod yn gymwys i'w derbyn. Mae Taliad Tai Dewisol ar gael i hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n derbyn yr elfen Tai.
- Hawlio Budd-daliadau/ ceisio cyngor gan asiantaeth cyngor dyledion – siaradwch ag ymgynghorydd annibynnol am ddim. Gall eich Swyddog Atal Digartrefedd wneud atgyfeiriad at Swyddog Cyngor ar Bopeth mewnol i'ch cynorthwyo.
- Oedolion Eraill - a oes unrhyw un arall sy'n byw gyda chi a allai gyfrannu at y Rhent, Morgais neu filiau eraill?
- Biliau Tanwydd – ar gyfer rhai ar incwm isel, efallai gall eich darparwr ynni eich cynorthwyo os oes gennych ddyledion ar gyfer eich biliau Nwy neu Drydan. Ceisiwch ystyried lleihau eich biliau Ynni / Dŵr - efallai y bydd modd newid cyflenwr / tariff ynni (gwiriwch ar wefan gymharu). Efallai y bydd modd cael disgownt ar filiau ynni drwy wneud cais am ddisgownt cartref cynnes gyda'r cyflenwr. Mae tariffau dŵr arbennig ar gyfer pobl ar incwm isel (Help U Dŵr Cymru) neu Watersure Wales ar gyfer aelwydydd gyda 3 neu fwy o blant / unrhyw un mewn aelwyd gyda chyflwr sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio lot o ddŵr (e.e. Eczema).
- Gwneud rhestr o'ch holl ddyledion a'u rhoi mewn trefn yn ôl blaenoriaeth. Yn ogystal ag ôl-ddyledion rhent / Morgais mae: Ôl-ddyledion Treth y Cyngor, Ôl-ddyledion Ynni, Dirwyon Llys yr Ynadon, Ôl-ddyledion trwydded deledu, ôl-ddyledion Cynhaliaeth Plant.
- Cyfrifo faint y gallwch fforddio ei dalu i bob credydwr (unigolyn neu sefydliad yr ydych yn ddyledus iddynt) a chysylltu â nhw gyda chynnig ad-dalu.

A oes unrhyw gymorth os oes gennyf ôl-ddyledion rhent?

Os oes gennych chi ôl-ddyledion rhent, peidiwch ag anwybyddu'r sefyllfa. Mae ôl-ddyledion rhent yn ddyled blaenoriaethol ac mae canlyniadau peidio â mynd i'r afael â nhw yn ddifrifol. Mae perygl o golli eich cartref.

Gwiriwch fod arnoch chi'r holl arian y mae'r landlord yn dweud sy'n ddyledus. Cysylltwch â'ch landlord cyn gynted â phosibl i egluro eich sefyllfa a gwneud trefniadau i dalu unrhyw ôl-ddyledion.

Efallai na fyddwch yn gyfrifol am yr holl ôl-ddyledion os:

- Nid chi yw'r tenant neu mae rhywun arall yr ydych yn byw gyda nhw mewn dyled
- Nid yw'r landlord wedi cofnodi eich holl daliadau rhent yn gywir
- Fe dderbynioc y denantiaeth gan rywun ac mae eich landlord yn ceisio codi tâl arnoch am y rhent cyn i chi dderbyn y denantiaeth.



Os na allwch dalu eich rhent neu eich bod wedi methu rhai taliadau rhent, rhowch drefn ar bethau cyn gynted â phosib. Hyd yn oed os oes gennych ddyledion eraill, dylid blaenoriaethu ôl-ddyledion rhent.

Hyd yn oed os ydych wedi derbyn Budd-dal Tai, os nad yw'n talu am eich rhent efallai y gallwch gael arian ychwanegol – Taliad Tai Dewisol.

Ar gyfer ôl-ddyledion Morgais gofynnwch am Daflen Ffeithiau FS11

Ar gyfer Syniadau Cyllidebu gofynnwch am Daflen Ffeithiau FS22

Mae nifer o asiantaethau a allai eich cynorthwyo:



Hawliau Lles

Cyngor a gwybodaeth am fudd-daliadau, hawliadau ac ati ☎ **01639 685247**
🌐 www.npt.gov.uk



☎ 0800 138 1111
🌐 www.stepchange.org



☎ 01492 580028
🌐 www.northwalescu.co.uk
📄 144 Conway Rd, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9ND



☎ **0845 6043719**
🌐 www.jobcentreplus.gov.uk
📄 29-31 Chapel St, Llandudno, Conwy



☎ 01792 469400
🌐 www.sheltercymru.org.uk
📄 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, y Rhyll LL18 1AT



Cyngor ar Bopeth
☎ 0344 477 2020
🌐 www.citizensadvice.org.uk
📄 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX



Cyngor am arian yn rhad ac am ddim ac yn ddiuedd er mwyn gwella eich sefyllfa ariannol. Teclynnau a chyfrifianellau i gadw cofnod a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cefnogaeth wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein ☎ 0300 500 5000



Budd-dal Tai
☎ 01492 576491
🌐 www.conwy.gov.uk



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru. Os hoffech wybodaeth a all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru www.dewis.wales
Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyngor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

Fersywn 2 Ionawr 2020

